# IEUAN CLYWEDOG (fl. c. 1577-96), bardd

**Enw:** Ieuan Clywedog
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Ray Looker

brodor, y mae'n debyg, o ddyffryn Clywedog yn Sir Drefaldwyn. Cadwyd peth o'i farddoniaeth mewn llawysgrifau ac yn ei phlith gywyddau traddodiadol, a gyfansoddwyd rhwng tua 1577 a 1596 i aelodau teuluoedd Cefn Digoll, Gartheryr, Mallwyd, Mathafarn, a Moelyrch; cedwir cywydd i'r brithyll hefyd. Ceir enghreifftiau o'i farddoniaeth yn y llawysgrifau canlynol: Cardiff MS. 84, Cwrtmawr MSS. 12, 21, 207, Llanstephan MS 118, Llanstephan MS 133, Llanstephan MS 155, a Pen. MS. 87. Y mae'r dyddiadau a roir yn *Blackwell*, a *Cymru (O.J.)* dros ganrif yn rhy gynnar.

## Awdur

**Ray Looker**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu